**<u>Cofnodion Grŵp Ecosystem Tir Ffermio Isel Cymru</u>**

**<u>Adeilad y Goron, Northgate Street, Aberystwyth, 24 June 2009.</u>**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Caryn Le Roux | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Yn bresennol: | Gethin Davies | (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) |
| | Charles Grisedale | (Ymddiriedolaeth Adfer y Cornicyll) |
| | Clare Burrows | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Trevor Dines | (Plantlife) |
| | Hilary Miller | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Dave Lamacraft | (Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar) |
| | Candace Brown | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| | Glenda Thomas | (Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt) |
| | Juliet Hynes | (Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) |
| | Dafydd Jarrett | (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr) |
| Cofnodion: | Andrew Chambers | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Ymddiheuriadau: | Charles Morgan | (Pori Natur a Threftadaeth) |

**1. Cyflwyniadau**

1.1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod am 11.00 a chadarnhaodd y byddai'n canolbwyntio ar wrychoedd, perllannau ac ymylon caeau âr. Mae'r gair 'isel' wedi'i gynnwys yn nheitl y grŵp i wahaniaethu rhwng tir isel ac ucheldir, er bod y 3 chynefin wedi'u cynnwys yng nghylch gwaith y grŵp boed hynny ar dir isel neu ucheldir.

1.2. Cadarnhaodd y cadeirydd y bu'n cyflwyno sylwadau i'r Grŵp Polisi ar ran y grŵp ac y bydd yn parhau i wneud hynny.

**2. Targedau'r Cynllun Gweithredu**

2.1. <u>T1: Cynnal maint net gwrychoedd ar draws y DU (KM)</u>

2.1.1. Nodwyd fod y ffigurau T1 yn yr Arolwg Cefn Gwlad yn gyfyngedig o ran maint y sampl ond mai dyma'r ffigurau gorau sydd ar gael. Cytunwyd y dylid eu defnyddio fel llinell sylfaen.

**Gweithredu: Y Cadeirydd i gadarnhau ai 106K km yw'r ffigur cywir o ran yr hyd o wrychoedd yng Nghymru sydd mewn cyflwr ffafriol.**

2.1.2. Nodwyd fod cofnodion sirol yn cynnwys gwybodaeth am wrychoedd a gollwyd a dywedodd Juliet y bydd y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) yn cael ei hysbysu o'r colledion hyn yn y dyfodol, neu o leiaf y dylai hynny ddigwydd.

2.1.3. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pham y collir gwrychoedd a'r farn oedd mai cynnal a chadw ffyrdd a gwneud gwaith arnynt yw un o'r prif ffactorau.

2.1.4. Cytunwyd fod angen ceisio gwybodaeth am golledion ac am ehangu gwrychoedd.

**Gweithredu: Clare Burrows i edrych i weld a oes gwybodaeth am golledion/ehangu yn cael ei chynnwys yn yr Arolwg Cefn Gwlad.**

2.2. T2: Cynnal y nifer o goed unigol, ar eu pen eu hunain, mewn gwrychoedd a hen goed drwyddi draw.

2.2.1. Y materion a amlygwyd oedd ei bod yn anodd monitro coed mewn gwrychoedd, fod ffermwyr yn tueddu i ochel rhag coed aeddfed oherwydd atebolrwydd cyhoeddus a bod tuedd felly iddynt gael eu torri. Mae'r Asiantaeth Briffyrdd hefyd ar ei gwyliadwriaeth am goed hŷn a allai beri pryder o ran diogelwch y cyhoedd. Caiff coed mewn gwrychoedd eu torri'n aml fel coed at ddefnydd personol ac i'w gwerthu. Mae'r cwmnïau cyfleustodau yn wynebu cosbau am darfu ar wasanaethau ac mae tuedd felly iddynt glirio coed sy'n agos at geblau uwchben.

2.2.2. Dywedwyd fod tocio'n ffordd bosibl o ymdrin â'r materion uchod.

2.2.3. Awgrymwyd y gallai'r Comisiwn Coedwigaeth fod yn un ffynhonnell ariannol i hyrwyddo coed a choed mewn gwrychoedd a bod gan yr awdurdodau lleol gyfrifoldeb am goed unigol.

2.2.4. Tybiwyd fod angen sefydlu mecanweithiau i amddiffyn coed sydd â chennau pwysig arnynt a bod hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt hen goed.

2.2.5. Mae'r ddeddfwriaeth gorchmynion cadw coed yn cael ei diweddaru yn yr Alban a Lloegr ac mae angen gwneud hynny yng Nghymru (yn ogystal ag adolygu'r rheoliadau gwrychoedd).

**Gweithredu: CLR i gasglu materion polisi ynghyd i'w trosglwyddo i Grŵp Polisi PBC.**

2.3. T3: Sicrhau rhwng 2005 a 2010 fod gwrychoedd yn parhau leiaf yr un mor gyfoethog o leiaf mewn rhywogaethau coediog brodorol.

2.3.1. Tynnwyd sylw at y ffaith fod adroddiad Colin Barr yn cynnwys mwy o wybodaeth am rywogaethau nag adroddiad Cymru, nad yw targedau T3 ond yn cyfeirio at rywogaethau coetir a chytunwyd fod rhestr y DU o rywogaethau yn ddigonol ar gyfer gofynion targedau T3.

2.3.2. Mae rhestr o dargedau wedi cael ei chynnig – 2010-2015/15-20/20-25.

2.3.3. Trafodwyd a ddylai targedau T3 a T6 gael eu cyfuno. Fodd bynnag, cytunwyd nad oes angen gwneud hynny oherwydd y ffactorau gwahanol sy'n effeithio ar wahanol rywogaethau.

2.3.4. Er bod y targedau sydd wedi'u gosod yn realistig, roedd teimlad y gallai fod angen adolygu'r rhestr rywogaethau i annog peidio â phlannu rywogaethau gwrych estron. Dywedwyd fodd bynnag ei bod yn anodd penderfynu beth sy'n frodorol – h.y. efallai nad yw'r hyn sy'n frodorol i Dde Cymru yn frodorol i Ogledd Cymru.

2.4. <u>T4: Sicrhau fod 35% o wrychoedd mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010 a 50% erbyn 2015.</u>

2.4.1. Dim ond 7% o wrychoedd Cymru sydd mewn cyflwr ffafriol ar hyn o bryd, wedi'u hasesu yn ôl isafswm uchder, lled, bylchau a rhywogaethau estron.

2.4.2. Cafwyd trafodaeth am y materion sy'n effeithio ar gyflwr ffafriol, a'r farn oedd mai rheoli ymylon, dŵr ffo, llygredd atmosfferig a lefelau pori priodol yw'r prif ffactorau sy'n achosi methiant.

2.5. <u>T5: Gwrthdroi cyflwr anffafriol gwrychoedd sy'n cael eu gor-reoli drwy leihau tocio blynyddol i 60% erbyn 2010.</u>

2.5.1. Nododd trafodaeth am dargedau T5 fod amlder y torri yn elfen arwyddocaol o ran atal gwrychoedd rhag adfywio i gyflwr ffafriol. Credid fod angen dylanwadu ar feddylfryd contractwyr i sicrhau nad yw gwrychoedd yn cael eu tocio'n ddianghenraid ac y dylid dwyn i sylw ffermwyr y gostyngiad mewn costau a geid o docio bob 3 blynedd, y budd i rywogaethau a'r ffaith na fyddai canghennau'n marw.

2.5.2. Cytunwyd na ddylai gwrychoedd gael eu torri'n ôl i'r man torri'n ôl blaenorol ac y dylid gadael iddynt gynyddu o ran maint dros amser a bod angen sefydlu mecanwaith i sicrhau amrywiaeth, h.y. torri rhai gwrychoedd yn flynyddol, rhai bob 3 blynedd, plygu rhai gwrychoedd ac ati.

2.5.3. Dywedwyd fod arolwg yn cael ei gynnal dros y ffôn yn Lloegr i fonitro torri gwrychoedd ond nad oes gan Gymru drefn o'r fath.

2.5.4. Cytunwyd y byddai annog rheoli traddodiadol, yn hytrach na lleihau'r gwaith tocio, yn darged mwy perthnasol.

2.6. <u>T6: Atal y dirywiad yng nghyflwr fflora gwrych llysieuol erbyn 2010 a'i wella erbyn 2015.</u>

2.6.1. Nodwyd nad oes mecanwaith i ddelio ag ewtroffigedd ac mai targedau ar gyfer blodau a gweiriau sydd gennym, nid mwsoglau.

2.7. T7: Gwella cyflwr y boblogaeth coed mewn gwrychoedd drwy gynyddu'r nifer o goed ifanc.

2.7.1. Mae'n ofynnol yn ôl T7 plannu coed ifanc. Fodd bynnag, nodwyd nad oes cymorth grant ar gael.

2.7.2. Cytunodd y grŵp fod ystyriaethau tebyg yn T7 i T2 ac y dylid felly eu cyfuno ond gydag ychwanegiadau ynglŷn â phlannu a chynhaliaeth i hen goed.

**Gweithredu: CLR i ddelio â chyfuno T2 a T7.**

2.7.3. Nodwyd fod angen nodi mecanweithiau y tu hwnt i gwmpas cynlluniau amaeth-amgylcheddol er mwyn cyflawni T7, yn cynnwys o bosibl fecanweithiau tagio coed a fyddai'n golygu cynnwys contractwyr – byddai angen cylch gwaith cyfathrebu i hynny.

2.8. T8: Sicrhau cynnydd net o 90km y flwyddyn ar gyfartaledd yn yr hyd o wrychoedd hyd at 2010 a 2015.

2.8.1. Awgrymodd Juliet Hynes y gellid rhannu T8 yn ddau darged, sef a) adfer, b) ehangu, o safbwynt BARS.

2.8.2. Cadarnhawyd mai'r diffiniad yw unrhyw fath o wrych felly gallai fod yn un rhywogaeth ond câi hyn ei adlewyrchu yn y targedau 'cyflwr'.

2.8.3. Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw'r Arolwg Cefn Gwlad yn dangos unrhyw gynnydd net, sy'n awgrymu cryn lawer o golledion, yn enwedig gan fod llawer o wrychoedd yn cael eu plannu drwy Tir Gofal ac mae felly'n bwysig sefydlu ffigurau colledion yn y cyswllt hwn.

2.8.4. Cadarnhaodd Juliet Hynes fod gofyn cyflenwi gwybodaeth am gynefinoedd/gwaith adfer/ehangu i BARS ac mai'r swyddogion LBAP fydd yn gyfrifol am gadarnhau fod data'n cael ei fewnbynnu.

**Gweithredu: Juliet Hynes i goladu data oddi wrth swyddogion LBAP am ehangu/colledion o ddata'r awdurdodau lleol.**
**Gweithredu: CLR i ddiweddaru'r targedau a'r materion, yn dilyn y drafodaeth hon.**

## 3. Ymylon Caeau Âr

3.1. Oherwydd yr amser a oedd ar gael, penderfynwyd y byddai is-grŵp yn ymdrin â'r targedau o ran Ymylon Caeau Âr. Byddai'r is-grŵp yn cynnwys Dave Lamacraft, Trevor Dines, Claire Burrows, Charles Grisedale a Candace Brown.

**4. Perllannau Traddodiadol**

4.1 Cafwyd trafodaeth am berllannau traddodiadol a nodwyd nad oes camau gweithredu BAP ar hyn o bryd a bod angen cynnal arolygon llinell sylfaen. Y flaenoriaeth yw canfod faint o berllannau traddodiadol sy'n bodoli, a'r fethodoleg.

**Gweithredu: Hilary Miller i gylchredeg y Cynllun Gweithredu Cynefinoedd pan fydd ar gael.**
**Gweithredu: Hilary Miller i gysylltu â Juliet Hynes ynglŷn â'r wybodaeth sy'n cael ei dal gan swyddogion LBAP.**

**5. Glastir**

5.1 Eglurodd y Cadeirydd:

- bydd dogfen Glastir yn cael ei chyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd er mwyn newid y Cynllun Datblygu Gwledig ym mis Gorffennaf
- mae cod y fferm gyfan yn cael ei adolygu, ond bydd y cynllun newydd mewn fformat tebyg i gynlluniau eraill
- bydd ffermydd yn ymrwymo i rai opsiynau
- bydd angen nifer penodol o bwyntiau i gael eich derbyn i'r cynllun; bydd gofyn i ymgeiswyr ddethol amryw o opsiynau er mwyn cael digon o bwyntiau i gael eu derbyn.

5.2 Eglurodd y Cadeirydd mai cylch gwaith y grŵp mewn perthynas â Glastir yw penderfynu a fydd yr opsiynau drafft yn cyflawni o safbwynt gwrychoedd/perllannau/ymylon caeau âr.

5.3 Teimlai'r grŵp y bydd diffyg swyddogion prosiect yn effeithio ar werth am arian gan y bydd ffermwyr yn ymgymryd â gwaith heb unrhyw gyngor.

5.4 Roedd gan y grŵp bryderon difrifol na fydd unrhyw amcanion cyraeddadwy i'r grŵp hwn o safbwynt ei gylch gwaith os bydd y nifer a fydd yn manteisio ar yr elfennau hyn yn isel.

5.5 Tynnodd Glenda Thomas sylw at yr angen i adroddiadau Llywodraeth y Cynulliad gyfleu negeseuon cadarnhaol.

5.6 Wedyn adolygodd y grŵp yr opsiynau drafft o ran gwrychoedd a pherllannau. Bydd yr opsiynau drafft o ran ymylon caeau âr yn cael eu hadolygu gan yr is-grŵp, sef Clair Burrows, Dave Lamacraft a Trevor Dines, a'u cylchredeg i weddill y grŵp cyn iddynt gael eu cyflwyno i dîm datblygu Glastir.

**Gweithredu: CLR i gasglu ynghyd ymateb y grŵp i opsiwn Cymru gyfan Glastir a'i anfon ymlaen at dîm datblygu Glastir.**

9. Cyfarfod nesaf: 7fed Hydref
Daeth y cyfarfod i ben am 4pm